TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Engage to Change - Internship

Yn gryno

Mae'r cwrs hwn yn cefnogi dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, anableddau neu awtistiaeth. Bydd dysgwyr yn ymgymryd ag interniaeth â chymorth gan weithio tuag at sicrhau cyflogaeth ran-amser neu lawn amser.

Dyma'r cwrs i chi os...

... ydych yn cynllunio ar gyfer sicrhau cyflogaeth

... ydych eisiau datblygu sgiliau cyflogadwyedd

... ydych yn unigolyn ymroddedig sy'n barod i ymgymryd â phrofiad gwaith

... ydych yn barod i deithio i gwblhau eich lleoliad gwaith

Beth fyddaf yn ei wneud?

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Bydd cymwysterau'n cael eu teilwra ar gyfer anghenion pob intern a'u llwybrau datblygiad arfaethedig.

Mae'r meysydd pwnc yn cynnwys:

Adeiladu perthnasoedd proffesiynol gyda chydweithwyr yn y gweithle
Cymryd cyfrifoldeb am eich datblygiad personol eich hun
Sut i ddod o hyd i'ch ffordd o gwmpas y gweithle
Dysgu beth yw'r rheolau a'r rheoliadau ar gyfer y gweithle (Moeseg Gwaith)
Ymgymryd â gweithgareddau ar gyfer dewis swyddi
Cwblhau lleoliad gwaith 3 diwrnod o hyd oddi ar y campws

Bydd y rhaglen yn asesu pob dysgwr trwy wahanol asesiadau, gan gynnwys:

Arsylwi
Cwestiynu ar lafar
Tystiolaeth fideo neu ffotograffau
Asesiad ysgrifenedig

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Disgwylir i ddysgwyr ymrwymo'n llawn i bob agwedd o'r rhaglen. Mae dangos parch tuag at eraill, brwdfrydedd am y pwnc a hunan gymhelliant yn nodweddion hanfodol rydym yn disgwyl eu gweld ym mhob un o'n dysgwyr.

Rhaid i ddysgwyr allu cynnal a mynychu pob agwedd ar leoliad gwaith.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd gan ddysgwyr y wybodaeth a'r sgiliau i symud ymlaen i gyflogaeth.

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd dysgwyr yn mynychu lleoliad gwaith 3 diwrnod yr wythnos oddi ar y campws (Dydd Mawrth, Dydd Mercher a Dydd Iau) gyda dau ddiwrnod ar y campws (Dydd Llun a Dydd Gwener)